

30.01.2023

Annwyl Riant/Warcheidwad

Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel: Dydd Mawrth 7 Chwefror 2023

Mae Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn gyfle gwych i bobl ifanc, staff ysgol, rhieni a gofalwyr gymryd rhan mewn ymgyrch wirioneddol fyd-eang. Eleni mae pobl ifanc yn cael eu hannog i leisio eu safbwyntiau, eu barn neu straeon am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, gemau neu apiau. Mae'r llwyfannau y mae pobl ifanc yn eu defnyddio yn fannau ar gyfer cysylltu, cymuned a chydweithio, a dyna pam mae **Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel** yn eu herio i feithrin perthnasoedd cefnogol a chymunedau parchus, tra'n eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel yn y manau hyn.

Mae'r [casgliad hwn o ganllawiau](#) yn rhoi gwybodaeth allweddol i rieni a gofalwyr am yr apiau cyfryngau cymdeithasol a gemau mwyaf poblogaidd y mae plant a phobl ifanc yn eu defnyddio heddiw.

Cadw Pobl Ifanc yn Ddiogel ar-lein - Dan Ddylanwad

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnig y potensial i ddenu sylw cynulleidfa fawr a gall pobl ddod yn enwog dros nos neu'n frandiau llwyr, a adnabyddir fel 'dylanwadwyr'. Gall dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol barhau delfrydau afrealistig a negeseuon amhriodol wrth iddynt hyrwyddo rhai cynhyrchion, ffyrdd o fyw neu agweddau sydd wedi'u cynllunio i berswadio eraill i weithredu ar sail eu hargymhellion. Gall bod yn agored i ddylanwadwyr ar gyfryngau cymdeithasol fod yn her i bobl ifanc argraffadwy, a allai fod yn agored i'r ymddygiad cadarnhaol a negyddol a ddangosir ganddynt. I gael cymorth i reoli effaith y dylanwadwr, [cliciwch yma](#).

Am fwy o gymorth a chyngor cyffredinol ar sut i gadw'ch plentyn yn ddiogel ar-lein, ewch i:
<https://hwb.gov.wales/zones/keeping-safe-online/>

Dymuniadau gorau,

Andrew Hesketh
Pennaeth Cynorthwyol